Taith
2d

Cribyn a Gerddi Cae Hir

Dechrau a Diwedd:. . . . . Maes Parcio'r Rookery, Llanbed
Parcio: . . . . . Maes Parcio'r Rookery, Llanbed
Amcangyfrif o'r pellter: . . . . . Tua **10 milltir**
Amser a ganiateir: . . . . . **1 - 2 awr**
I gwblhau'r llwybr cyfan heb stopio, yn dibynnu ar lefelau ffitrwydd. Mae rhai bryniau serth iawn ar y llwybr.
Trafnidiaeth gyhoeddus agosaf: *Bws:* Tregaron, Llanbed *Rheilffordd:* Aberystwyth
Cydrannau ac Offer Beiciau agosaf: Daltons ATV, Talsarn. 01570 470022
Cyclemart, Cilcennin 01570 470079
Gwasanaeth ychwanegol yn Aberystwyth ac Aberteifi.

Cribyn a Gerddi Cae Hir

Cae Hir

Gadewch Llanbed ar yr A475 gan ddilyn yr arwyddion ar gyfer taith 2d.

Dringwch allan o Ddyffryn Teifi i fanteisio ar olygfeydd gwych dros Llanbed a'r ardal wledig o'i chwmpas gyda mynyddoedd y Cambria yn gefndir.

Pasiwch gapel yr Undodiaid, Capel y Groes lle claddwyd Joseph Jenkins, y Swagman y soniwyd amdano ar daith 2b. Croniclir ei hanes rhyfeddol gan yr awdur o Lanbed, Bethan Phillips. Mae'r dyddiaduron a gadwyd gan y Cymro Joseph Jenkins yn ystod ei gyfnod fel swagman yn Awstralia yn agoriad llygad o safbwynt rhoi cipolwg ar y caledi a ddioddefwyd ganddo ef a'i gydymfudwyr yn y cyfnod hwnnw tra'n chwilio am fywyd gwell.

Mae'r rhan o Ddyffryn Teifi rhwng Llanbed a Llandysul yn un o gadarn leoedd yr Undodiaid yn y Deyrnas Unedig ac mae gan yr Undodiaid siop lyfrau yn Llanbed.

Â'r daith yn ei blaen i bentref Cribyn lle gallwch ymweld â Gerddi Cae Hir. Mae'r ardd (codir tâl mynediad) ar agor fel arfer yn ystod y prynhawn o ddydd Mawrth tan ddydd Sul ac ar wyliau Llun y Banc.

Carreg fedd y Swagman

Canolfan Croeso Aberaeron
(ar agor drwy'r flwyddyn),
Pencei, Aberaeron SA46 0BT
Ffôn: 01545 570602
Email: AberaeronTIC@ceredigion.gov.uk

Canolfan Croeso Aberystwyth
(ar agor drwy'r flwyddyn),
Ffordd y Môr, Aberystwyth SY23 2AG
Ffôn: 01970 612125
Email: AberystwythTIC@Ceredigion.gov.uk